# Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

## *10/3/2025*

**Presennol:** D Clwyd Davies (Cadeirydd), Gwyn Roberts (is-Gadeirydd), Geraint Roberts, W D Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans

Lis Puw (Clerc)

**Cyflwyniad Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri:**

Croesawyd Edward Jones (Pennaeth Gwasanaethau Eiddo), David Jones ac Arwel Morris (o'r tîm Wardeiniaid) atom i sôn am y camau y maent yn rhoi yn eu lle fel peilot eleni i resymoli'r defnydd o'r meysydd parcio ar lan Llyn Tegid ac i geisio osgoi trafferthion o or-boblogi'r ardaloedd hyn yn ystod adegau prysur. Gobeithir bydd y cynlluniau peilot yn Llangywer yn y pen draw yn cynnwys gosod camera ANPR, a chamerâu cylch cyfyng, uwchraddio'r toiledau, dynodi mannau parcio penodol, uwchraddio'r arwyddion, mesurau i atal aros dros nos, wardeiniaid ychwanegol dros dro a gwirfoddolwyr. Mae rhai o'r uchod yn ddibynnol ar ennill grant i'w cefnogi. Mae croeso cynnes i wardeiniaid gwirfoddol ymuno yn y gwaith o warchod y llyn a'r glannau.

Gobeithir hefyd cael cefnogaeth Cyngor Gwynedd i osod arwyddion yn dynodi lori yn llusgo car ar yr arwyddion Clirffordd a osodwyd yn barod; hefyd gofynnir am arwydd "agor a phlygu" wrth bont Mwnwgl y Llyn i roi gwybod pan fydd maes parcio Llangywer yn llawn.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r Swyddogion am eu gwaith ac am ei presenoldeb yng nghyfarfod y Cyngor. Cytunwyd fod angen i fod yn oddefgar pan y bydd pobl leol yn ymweld â'r llyn, ac y gellir gwneud hyn yn eglur yn lleol trwy "Y Cyfnod".

1. Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Emyr Jones, Eleri Jones a Tyly Roberts. Cydymdeimlwyd a Gwyn Roberts yn ei brofedigaeth o golli chwaer yn ddiweddar.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 13/1/2025.
5. Materion y Clerc a materion yn codi o'r Cofnodion:

*Cofnod 9:* Gwiriwyd bod Cynghorwyr wedi derbyn sylwadau dros e-bost am gais cynllunio NP5/70/6H (Maesafallen) a chais cynllunio NP5/70/50G (Canolfan Awyr Agored Rhosygwaliau).
Rhoddwyd ystyriaeth i lythyr at Gynghorydd Gwynedd parthed cais NP5/70/6H a chytunwyd wrth gydnabod y llythyr hwn i gynnwys Cyfarwyddyd Parc Cenedlaethol Eryri i Gynghorau Cymuned a Thref ar sut i ymateb i geisiadau cynllunio.

*Cofnod 6 vi*: Cost cynnal y wefan: nid oedd Cyngor Llanycil wedi mynegi barn ar y mater.

6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a gadarnhaodd ei ymdrechion i gael arwyddion lori yn llusgo car ar yr arwyddion Clirffordd. Bydd hefyd yn holi am arwydd agor-a-phlygu wrth bont Mwnwgl y Llyn pan fydd maes parcio Llangywer yn llawn.
   Bu'n trafod mater clirio eira ar hyd ffyrdd cefn gwlad gyda swyddogion, a nodwyd gyda diolch y cliriwyd yn fuan coeden oedd wedi syrthio yng Nghwm y Glyn.
   Mae'n cael trafodaethau buddiol gyda'r Adran ailgylchu erbyn hyn. Yn anffodus mae gwastraff o dai gwyliau yn cael ei roi mewn biniau a neilltuwyd i drigolion. Er hynny, mae trafferthion gyda gwastraff yn gyffredinol yn llai niferus nag yn y gorffennol.
   Bu oedi yn y gwaith brwsio a thrwsio ffyrdd ond mae'r rhaglen mewn bodolaeth.
   Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei ddygnwch.

7. **Materion lleol** y Cynghorwyr: Dywedodd W D Williams yn ei adroddiad o Gwmni Pum Plwy Penllyn fod y gwaith strwythurol ar Ganolfan Bro Tegid yn mynd yn ei flaen yn dda, a bod y gwaith mewnol wedi dechrau erbyn hyn.

8. **Materion ariannol**
   i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol.
   ii. Derbyniadau – ffi'r fynwent.
   iii. Cytunwyd i dalu:
      a. Cyflog y Clerc (cyfraniad Swyddfa wedi ei wneud)
      b. Aelodaeth Un Llais Cymru
      c. Cytunwyd i dalu am doriad gwair ychwanegol yn 2025 .
      d. Cytunwyd i roi grantiau cymunedol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Y Neuadd Bentref | £750 |
| Llên y Llannau | £ 20 |
| Y Cyfnod | £ 50 |
| Cantref | £ 50 |
| Urdd (Meirionnydd) | £ 50 |
| Ffederasiwn CFFI | £130 |

9. **Cynllunio:** Dim ceisiadau.

10. **Gohebiaeth:** Ystyriwyd
    i. Cyngor Gwynedd:
       a) Ymgynghoriad ar Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau (*perthnasol i ward Rhosygwaliau*)
       b) Arolwg o flaenoriaethau – gweler Arolwg Gwynedd 2025

c) Cyfarfod Cynllun Adfywio Ardal Ni y Bala a Phenllyn a Chynllun Creu Lle y Bala – 10/3/25 – ar noson cyfarfod y Cyngor.

ii. Un Llais Cymru:
   a) Cydnabyddiaeth Ariannol aelodau Cynghorau Cymuned 2025
   b) Nodiadau arweiniol amrywiol

iii. Heddlu Gogledd Cymru:
   a) Blaenoriaethau Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd
   b) Dyddiad Cyfarfod Lleol gyda chynrychiolwyr cynghorau Penllyn

iv. Parc Cenedlaethol Eryri: Nodyn cyfarwyddyd gan APC Eryri ar y system gynllunio

v. Comisiwn Etholiadau Arolwg barn ar DBCC - Rhaglen Arolygon Etholiadol 2025 (RhAE 2025)

vi. 20's *Plenty for us* – cais i ystyried anfon at Lywodraeth Cymru i gefnogi 20mya. Cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd.

vii. Sian Gwenllian AS: cais am gefnogaeth i sefydlu Ysgol Deintyddiaeth ym Mangor – cytunwyd i gefnogi'r cais

viii. Aelodau Senedd Cymru a San Steffan: Cyfrifoldebau yn fras

ix. Cymdeithas yr Iaith: cais i anfon at Lywodraeth Cymru i gefnogi argymhellion Comisiwn Cymunedau Cymraeg – cytunwyd i gefnogi.

x. Cyfeillion Llŷn: cais i ystyried ymuno gyda phrosiect Perthyn yr esiampl Polisi Iaith. Cytunwyd i'w fabwysiadu ar ôl i'r Clerc ddod i gytundeb ar y mater gyda Chlerc Cyngor Cymuned Llanuwchllyn.

11. Dyddiad y cyfarfod nesaf: I'w gytuno eto - tua cychwyn neu diwedd Mai yn ddibynnol ar wasanaeth archwilio ariannol Cyngor Gwynedd .